

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

Hydref 2021



1. Cefndir

Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd Llywodraeth y DU

1. Cafodd Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (y Bil) ei gyflwyno yn wreiddiol i Dŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 9 Mawrth 2021.¹ Caiff ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cafodd y Bil² ei ailgyflwyno ar 18 Mai 2021 yn dilyn cynnig cario drosodd.

2. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi mai ei bwrpas yw:

- diogelu'r heddlu a gweithwyr brys eraill a gwella lles swyddogion a staff yr heddlu;
- diogelu'r cyhoedd trwy roi'r offer sydd eu hangen ar yr heddlu i fynd i'r afael â throedd ac anhrefn, a thrwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddau treisgar difrifol gan ddefnyddio dulliau amlasiantaethol o atal;
- sicrhau bod y troseddwr treisgar a rhywiol mwyaf difrifol yn treulio amser yn y carchar sy'n cyfateb i ddifrifoldeb eu troseddau, amddiffyn dioddefwyr a rhoi hyder i'r cyhoedd;
- mynd i'r afael â throeddwr mynych a thoreithiog trwy ddedfrydau cymunedol cadarn sy'n cosbi a hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion troseddwr; a
- moderneiddio'r gwaith o gyflawni cyfiawnder troseddol trwy ailwampio prosesau llys presennol i ddarparu gwell gwasanaethau i holl ddefnyddwyr y llys.³

3. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2021. Fe'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 6 Gorffennaf 2021,⁴ cwblhaodd ei ail ddarlleniad ar 14 Medi 2021 a disgwyliroddo ddechrau'r cyfnod pwyllgorau ar 20 Hydref 2021.

¹ [Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#) [Bil Tŷ'r Cyffredin 268, 2019-21]

² [Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#) [Bil Tŷ'r Cyffredin 5, 2021-22]

³ [Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#), Nodiadau Esboniadol, Mai 2021, paragraff 1

⁴ [Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#) [Tŷ'r Arglwyddi 40]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

- 4.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn y cymhwysedd hwnnw.
- 5.** Yn benodol, mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:
- at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu
 - sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- 6.** Wrth ystyried a oes angen cydsyniad ar gymal penodol, rydym wedi defnyddio'r "prawf diben" a nodir yn y pwynt bwled cyntaf (Rheol Sefydlog 29.1(i)) h.y. a oes gan y ddarpariaeth ddiben datganoledig.
- 7.** Ar 28 Mai 2021, gosododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol⁵ gerbron y Senedd (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil.
- 8.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 14 Hydref 2021.⁶

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

- 9.** Mae paragraffau 7 a 8 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.
- 10.** Mae paragraffau 9 a 10 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil, sef:

"Mae llawer o'r Bil yn ymwneud ag achosion troseddol sy'n fater a gadwyd yn ôl (gweler paragraff 8 o Atodlen 7A)... Bydd rhai cymalau yn y Bil yn

⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Mai 2021

⁶ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Gorffennaf 2021

cynorthwyo ymhellach i wneud ein cymunedau yn ddiogel ac i gryfhau'r berthynas gydweithio rhwng partneriaid. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar y Bil yn deddfu mewn perthynas â swyddogaethau polisi datganoledig sy'n cael effaith ar y System Cyfiawnder Troseddol.

Mae'r Bil yn cwmpasu meysydd eang yn y maes cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl. Ni fyddai'n gwneud synnwyr ceisio dadgyfuno'r cymharol ychydig o faterion datganoledig a'u datblygu drwy ddeddfwriaeth ar wahân, ac nid oes lle yn rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil sy'n gwneud darpariaeth i Gymru ar y materion hyn yn unig. Nid oes bil ychwaith yn y rhaglen y gellid ychwanegu darpariaeth o'r fath ato."

11. Mae paragraffau 11 i 18 o'r Memorandwm yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i cyflwynwyd. Mae'r Memorandwm yn datgan:

*"Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i'r Bil ar y cyfan. Fodd bynnag, ceir anghytundeb o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Ddyletswydd Trais Difrifol. Ceir pryderon hefyd ynghylch y darpariaethau yn y Bil ar gyfer Gwersylloedd Diawdurdod a'r elfen yn ymwneud â lleihau swm yn y cymalau ynghylch gwrthdystiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â'r Drefn Gyhoeddus."*⁷

12. Mae'r Memorandwm yn nodi'r darpariaethau y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.⁸

Rhan 1 (Amddiffyn yr heddlu ac ati)

- cymal 1 (Adroddiad ar gyfamod yr heddlu);
- cymal 2 (Cynyddu'r gosb am ymosod ar weithiwr brys) (y cyfeirir ato fel "Cymal 2 [ew1]" yn y Memorandwm).

Rhan 2 (Atal, ymchwilio ac erlyn trosedd)

- Pennod 1 (Swyddogaethau'n ymwneud â thrais difrifol) sy'n cynnwys cymalau 7 i 22;
- Pennod 2 (Adolygiad o laddiad gydag arfau tramgwyddus) sy'n cynnwys cymalau 23 i 35;
- Y cymalau a ganlyn ym Mhennod 3 (Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig):
 - cymal 36 (echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig: ymchwilio trosedd ac ati);
 - cymal 37 (Cymhwyso adran 36 i blant ac oedolion sydd heb alluedd);
 - cymal 40 (Cod ymarfer ynghylch echdynnu gwybodaeth);
 - cymal 41 (Rheoliadau ynghylch echdynnu gwybodaeth gyfrinachol);
 - cymal 42 (Personau awdurdodedig).
- Ym Mhennod 4 (Darpariaethau eraill), cymal 46 (Difrod troseddol i gofebion: dull y treial) (y cyfeirir ato fel "cymal 46 [mem1]" yn y Memorandwm).

⁷ Memorandwm, paragraff 11

⁸ Memorandwm, paragraff 7

Rhan 3 (Trefn Gyhoeddus)

- cymal 54 (Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus);
- cymal 55 (Gosod amodau ar gynulladau cyhoeddus);
- cymal 59 (Achos niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid);
- cymal 60 (Gosod amodau ar brotestiadau un person).

Rhan 4 (Gwersylloedd diawdurdod)

- cymal 61 (Trosedd yn ymwneud â phreswyllo ar dir heb ganiatâd mewn neu gyda cherbyd);
- cymal 62 (Diwygiadau i'r pwerau presennol) (y cyfeirir ato fel "[ue2]" yn y Memorandwm);
- cymal 63 (Canllawiau ar arfer pwerau'r heddlu mewn perthynas â thresmaswyr ar dir) (y cyfeirir ato fel "[ue1a]" yn y Memorandwm).

13. Dywed Llywodraeth Cymru fod y darpariaethau hyn:

"...wedi cael eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig sy'n gysylltiedig â Diogelu'r Amgylchedd, Tir, Tai, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, Addysg a'r Gwasanaethau Tân ac Achub."⁹

14. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell cydsyniad ar gyfer yr holl ddarpariaethau (ond gweler paragraff 16), ac eithrio fel a ganlyn

"...ni fydd modd i Lywodraeth Cymru argymhell i'r Senedd ei bod yn cydsynio i'r Ddyletswydd Trais Difrifol (cymalau 9, 17 a 18), difrod troseddol i gofebau (cymal 46), gweryslyoedd diawdurdod (cymal 61 (ue1a) (ue2)) na chymalau 54, 55 a 60..."¹⁰

15. Mae'r Memorandwm yn mynd ymlaen i egluro pam nad yw cydsyniad yn cael ei argymhell ar gyfer y darpariaethau hyn¹¹ ac mae'n nodi y bydd gwaith i ddatrys pryderon sy'n weddill yn parhau yn ystod hyn y Bil drwy Senedd y DU, gyda Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei osod os bydd angen.¹²

16. Fodd bynnag, o ran argymhell cydsyniad, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell cydsyniad ar gyfer cymal 43 (mechniaeth cyn cyhuddo),¹³ na chyfeirir ato mewn man arall yn y Memorandwm, ond nid cymal 42, y sonnir amdano.¹⁴

⁹ Memorandwm, paragraff 8

¹⁰ Memorandwm, paragraff 12

¹¹ Memorandwm, paragraffau 14-17

¹² Memorandwm, paragraff 18

¹³ Memorandwm, paragraff 12

¹⁴ Memorandwm, paragraff 7

Safbwynt Llywodraeth y DU ar gydsyniad deddfwriaethol

17. Yn ei nodiadau esboniadol ym mis Mawrth 2020, mae Llywodraeth y DU yn nodi bod y Bil yn gyffredinol yn delio â materion a gadwyd yn ôl yng Nghymru. Serch hynny, mae'n cydnabod bod rhai mesurau yn y Bil yn ymwneud â materion datganoledig yn benodol trwy ymestyn swyddogaethau awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau addysgol yng Nghymru.¹⁵

18. Yn ogystal, yn y nodiadau esboniadol hyn, mae Llywodraeth y DU yn nodi:

*"The provisions in Clause 1 (police covenant), Chapter 1 of Part 2 (serious violence duty), Chapter 2 of Part 2 (homicide reviews), Clause 59 (offence of public nuisance) relate, in part, to matters within the legislative competence of Senedd Cymru."*¹⁶

19. Fodd bynnag, mewn nodiadau esboniadol i'r Bil a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar ôl ei gario drosodd¹⁷ ac wedi hynny yn Nhŷ'r Arglwyddi,¹⁸ hepgorir y cyfeiriad at ddarpariaethau yng nghymal 1 sy'n ymwneud yn rhannol â materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

20. Mae dwy o'r tair set o nodiadau esboniadol yn awgrymu bod Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd ar gyfer cymalau 1, 7 i 22 (ac Atodlenni 1 a 2), cymalau 23 i 35 a chymal 59.¹⁹

Adroddiad Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi

21. Ar 13 Medi 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio yn Nhŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar y Bil.²⁰ Mae'n mynegi syndod a phryder ynghylch y nifer fawr o ddirprwyaethau pŵer amhriodol yn y Bil ²¹ ac yn tynnu sylw at bryderon penodol ynghylch

¹⁵ ~~Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Nodiadau Esboniadol~~, Mawrth 2021, Atodiad C.

¹⁶ Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2021, paragraff 217

¹⁷ ~~Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Nodiadau Esboniadol~~, Mai 2021, paragraff 216

¹⁸ ~~Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Nodiadau Esboniadol~~, Gorffennaf 2021, paragraff 220

¹⁹ Gweler Atodiad C, troednodyn 12 ac Atodiad D, troednodyn 14, yn y drefn honno. Daeth cymal 59 yn gymal 60 yn y Bil a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi.

²⁰ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Tŷ'r Arglwyddi, 6ed Adroddiad Sesiwn 2021–22, ~~Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol~~, Medi 2021, Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi

²¹ Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraff 4

cynnwys rhai mathau o ddirprwyaethau pŵer ar sail simsan.²² Rydym yn nodi canfyddiadau eraill yn ein hystyriaeth isod.

²² Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraffau 6-7

2. Trafodaeth y Pwyllgor

22. Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 20 Medi 2021.²³ Ysgrifennom at y Gweinidog ar 22 Medi 2021²⁴ i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion. Ymatebodd y Gweinidog ar 28 Medi 2021 (llythyr y Gweinidog).²⁵

23. Cawsom ohebiaeth hefyd gan Travelling Ahead: Gwasanaeth Cyngori ac Eirioli Sipsiwn, Roma a Theithwyr ym mis Medi 2021, a oedd yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig i Senedd y DU a briff gan y grŵp Cyfeillion, Teuluoedd a Theithwyr.²⁶ Roedd yr ohebiaeth yn ymwneud yn benodol â chymalau yn y Bil ynghylch gwersylloedd diawdurdod.

Trosolwg

24. Nodwn fod y graddau y mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig yn gyfyngedig ac nad yw'n cynnwys unrhyw bwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

Y Memorandwm

25. Mae'r Bil yn cyffwrdd â ffiniau datganoli, gan ychwanegu cymhlethdod sylweddol i'r broses gydsynio. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddem yn disgwyl i Femorandwm Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r cymhlethdod hwn yng nghyd-destun y cydsyniad a geisir ac yn unol â hynny, i egluro'n glir pam, a'r amgylchiadau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer. Yn anffodus, nid yw'r Memorandwm yn cynnwys y wybodaeth hon.

26. Yn ychwanegol at y diffyg eglurder, mae'r Memorandwm wedi'i strwythuro a'i ddrafftio'n wael, gyda darpariaethau'n cael eu hystyried o ddilyniant rhifol a chyfeiriadau at gymalau nad ydynt yn rhifol (fel ue1a ac ue2), heb unrhyw ymdrech i egluro ystyr defnyddio'r fformat hwn na pham ei fod yn cael ei ddefnyddio.

²³ [Y Pwyllgor Deddfwriaethol, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Medi 2021](#)

²⁴ [Llythyr at y Gweinidog, Cyfiawnder Cymdeithasol, 22 Medi 2021](#)

²⁵ [Llythyr gan y Gweinidog, Cyfiawnder Cymdeithasol, 28 Medi 2021](#)

²⁶ [Llythyr gan Travel Ahead: Gwasanaeth Cyngori ac Eirioli Sipsiwn, Roma a Theithwyr, 15 Medi 2021 yn amgáu Briff ail ddarlleniad Tŷ'r Arglwyddi: Rhan 4 Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd Briff gan Gyfeillion, Teuluoedd a Theithwyr, Medi 2021 a Tystiolaeth ysgrifenedig i Senedd y DU gan Travelling Ahead: Gwasanaeth cyngori ac Eirioli Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Mai 2021](#)

- 27.** Nid yw'r Memorandwm yn helpu i hwyluso dealltwriaeth o pam y ceisir cydsyniad ar gyfer cymalau unigol ac yn hytrach mae'n canolbwyntio, er ei fod yn gyfyngedig, ar pam nad yw Llywodraeth Cymru yn argymhell cydsyniad ar gyfer rhai cymalau eraill.
- 28.** Yn syml, dim ond ychydig iawn o esboniad a roddir i'r cymalau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer o sut y maent yn cysylltu ac yn rhyngweithio â pholisi Llywodraeth Cymru, ac yna un frawddeg yn nodi eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.²⁷
- 29.** Mae'r cyfiawnhad dros geisio cydsyniad yn y Memorandwm yn annigonol. Mae paragraff 9 o'r Memorandwm yn cynnwys sylw cyffredinol y bydd rhai "cymalau yn y Bil yn cynorthwyo ymhellach i wneud ein cymunedau yn ddiogel ac i gryfhau'r berthynas gydweithio rhwng partneriaid" ond heb unrhyw fanylion i nodi pam bod hyn yn wir a pha gymalau y mae'r sylw hwn yn berthnasol iddynt. Mae paragraff 10, er ei fod yn gwneud pwynt dealladwy na fyddai'n synhwyrol dadgyfuno'r cymharol ychydig o faterion datganoledig a'u cynnwys o fewn Bil Cymru ar wahân, hefyd yn defnyddio dadl nad yw'n argyhoeddi nad oes lle i ddeddfu o fewn rhaglen Llywodraeth Cymru.
- 30.** Mae'n parhau i fod yn aneglur i ni pam bod Llywodraeth Cymru yn parhau â dadl o ddiffyg alluedd i gyfiawnhau defnyddio Biliau Llywodraeth y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig.
- 31.** Oherwydd y diffyg cyfiawnhad dros geisio cydsyniad y Senedd, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth. Roedd y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn ymateb y Gweinidog yn ddefnyddiol i ryw raddau a dylai fod wedi ymddangos yn y Memorandwm i alluogi'r gwaith craffu o ddechrau'r broses.

Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer: cytundeb â Llywodraeth Cymru

- 32.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau a ganlyn yn y Bil:

Cymal 1 (Adroddiad ar gyfamod yr heddlu);

Cymal 2 (Cynnydd yn y gosb am ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau brys);

Cymalau 7 i 22 (Swyddogaethau'n ymwneud â thrais difrifol);

Cymalau 23 i 35 (Adolygiad o laddiad gydag arfau tramgwyddus);

Cymalau 36 i 37 a 40 i 41 (Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig);

Cymal 46 (Difrod troseddol i gofebion: dull y treial).

²⁷ Memorandwm, paragraff 7

Cymalau 9, 17, 18

33. Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn argymhell gwrthod cydsyniad ar gyfer cymalau 9, 17 a 18 mewn perthynas â gorfodi'r ddyletswydd trais difrifol oherwydd gallent o bosibl arwain at i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi cyfarwyddiadau ar faterion datganoledig sy'n dod o fewn cylch gwaith awdurdodau datganoledig Cymreig.

34. Mae cymal 9 yn creu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng unigolion a ragnodir yn y rheoliadau hynny ("personau rhagnodedig") a rhai cyrff cyhoeddus i atal a lleihau trais difrifol (yn amodol ar gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, er enghraifft).

35. Mae cymal 17 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau i awdurdodau penodedig, awdurdodau addysgol, awdurdodau carchardai neu awdurdodau dalfa ieuenctid at ddibenion sicrhau cydymffurfiad â dyletswyddau a osodir mewn perthynas â thrais difrifol lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod awdurdodau o'r fath wedi methu â chyflawni dyletswyddau o'r fath. Mae cymal 18 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau i awdurdodau penodedig, unigolion rhagnodedig, cyrff plismona lleol, awdurdodau addysgol, carchar neu ddalfa ieuenctid wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd trais difrifol. Rhaid i'r personau hynny roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath a gyhoeddir. Mae cymalau 17(4) a 18(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn rhoi cyfarwyddyd, neu gyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau gan awdurdod datganoledig yng Nghymru (o fewn ystyr adran 157A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*).

36. Esboniodd llythyr y Gweinidog:

"Bydd y ddyletswydd trais difrifol yn rhoi cyfrifoldebau ar nifer o awdurdodau cyhoeddus i gydweithio a chynllunio i atal a lleihau trais difrifol. Mae rhai o'r cyrff hynny'n dod o fewn cylch gwaith awdurdodau datganoledig Cymru. Y rhain yw: Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ac Awdurdodau Tân ac Achub. Yn ogystal, bydd rhai cyfrifoldebau'n cael eu rhoi ar sefydliadau addysgol i gydweithio.

Fel y'i darllenir ar hyn o bryd, byddai'r Bil yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r awdurdodau hyn i gydweithio heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn obeithiol y bydd gwelliant yn cael ei osod i rwymo'r Ysgrifennydd Gwladol i gael cydsyniad Gweinidogion

*Cymru cyn defnyddio'r pŵer hwn pan fydd hynny ar gyfer materion datganoledig.*²⁸

37. Yn yr un modd â'n hadroddiad ar Fil Lluoedd Arfog Llywodraeth y DU,²⁹ rydym yn pryderu nad yw gwneud darpariaeth yn y Bil yn unig i ymgynghori â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymalau 17 a 18 yn dangos dealltwriaeth gan Lywodraeth y DU o safbwynt Llywodraeth Cymru fel y Llywodraeth etholedig yng Nghymru. Rydym yn cytuno â Gweinidogion Cymru y dylai'r Bil ofyn am i gydsyniad gael ei roi cyn i Lywodraeth y DU arfer pwerau o dan gymalau 17 a 18 mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, roi diweddariad i'w llythyr ar 28 Medi 2021 a chynghori a bydd gwelliant yn cael ei osod i'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer pwerau o dan gymal 17 a 18 mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig.

Cymalau 36 i 37 a 40 i 42

38. O ran cymalau 36 i 37 a 40 i 42 ynghylch echdynnu data o ffonau symudol a dyfeisiau digidol, gwnaethom ofyn pam bod Llywodraeth Cymru yn credu bod y cymalau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae hyn oherwydd bod y nodiadau esboniadol i'r Bil, yn awgrymu mai pwrpas y darpariaethau yw atal, canfod ac ymchwilio i droseddu³⁰ (sy'n fater a gadwyd yn ôl). O ran cymalau 36 i 37 a 40 i 41, atebodd y Gweinidog trwy ddweud:

*"Gellir dweud mai diben cyffredinol y pŵer i echdynnu gwybodaeth o ddyfais electronig yn y ddarpariaeth hon yw amddiffyn neu ddiogelu unigolion. Un o'r amgylchiadau lle gellir defnyddio'r ddarpariaeth hon yw er mwyn amddiffyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg. Mae materion diogelu yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac ymdrinnir â hwy yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er enghraifft."*³¹

39. O ran cymal 42 (gweler paragraff 16 uchod), dywedodd y Gweinidog wrthym:

"O ystyried y diffiniadau eang o bwy y gellir eu henwebu'n bersonau awdurdodedig, swyddog ymchwilio ac awdurdod erlyn yng nghymal 42 (fel y nodir isod), mae'n debygol y gallai hyn gynnwys swyddogion ac awdurdodau nad ydynt wedi'u cadw'n ôl, megis Awdurdodau Lleol."

²⁸ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 22 Medi 2021

²⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil y Lluoedd Arfog](#), Hydref 2021

³⁰ Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Nodiadau Esboniadol, Mai 2021, paragraff 45

³¹ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 22 Medi 2021

Byddem yn argymhell rhoi cydsyniad i gymal 42."

40. Rydym yn nodi cynnwys llythyr y Gweinidog ac yn cydnabod bod y darpariaethau'n cynnwys elfennau sy'n dod o fewn pwrpas datganoledig, sef diogelu plant neu oedolion sydd mewn perygl rhag esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol.

41. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn llythyr y Gweinidog mewn perthynas â'r cymalau hyn yn egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ac fe ddylai fod wedi'i chynnwys yn y Memorandwm.

Cymal 46

42. O ran cymal 46, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad i'r cymal hwn. Fodd bynnag, nodwn ei bod yn ymddangos bod dadansoddiad Llywodraeth Cymru o effaith y cymal hwn fel y nodir yn ei llythyr yn wrthgyferbyniol. Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod trosedd o dan adran 1(2) o *Ddeddf Difrod Troseddol 1971* o ddifrodi eiddo gan beryglu bywyd (yn fwriadol neu'n ddi-hid) yn drosedd dditiadwy yn unig eisoes ac y gallai arwain at garchar am oes. Felly mae'n aneglur i ni sut mai effaith bosibl y cymal hwn yw cynyddu'r ddedfryd uchaf am droseddau o'r fath, pan fo'r ddedfryd uchaf eisoes yn berthnasol.

Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer: anghytundeb â Llywodraeth Cymru

43. Nodwn y rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Memorandwm a'i llythyr dilynol ynghylch pam ei bod yn credu bod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau a ganlyn:

Cymal 43 (Mechniaeth cyn cyhuddo);

Cymalau 54 i 55 (Gorymdeithiau a chynulladau cyhoeddus);³²

Cymal 59 (Achos niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid);³³

Cymal 60 (Gosod amodau ar brotestiadau un person);³⁴

Chymal 61 i 63 (gwersylloedd diawdurdod).³⁵

44. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar y cymal hwn. Yn y sylwebaeth a nodir isod, rydym wedi cymhwyso'r "prawf diben" sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 29.1(i) (h.y. a oes gan y ddarpariaeth ddiben datganoledig) wrth ystyried a oes angen cydsyniad.

³² Cymalau 55 i 56 erbyn hyn ym Mil Tŷ'r Arglwyddi 40

³³ Cymal 60 erbyn hyn ym Mil Tŷ'r Arglwyddi 40

³⁴ Cymal 61 erbyn hyn ym Mil Tŷ'r Arglwyddi 40

³⁵ Cymalau 62-64 erbyn hyn ym Mil Tŷ'r Arglwyddi 40

Cymal 43

45. Fel y nodwn ym mharagraff 16 o'r adroddiad hwn, mae paragraff 12 o'r Memorandwm yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 43.

46. Gofynnem i Lywodraeth Cymru egluro pam ei bod yn credu bod cymal 43 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac, ar ben hynny, pam y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r cymal hwnnw. Fodd bynnag, wrth ymateb, nid oedd llythyr y Gweinidog yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn.

47. Mae'n bosibl bod cyfeiriad at gymal 43 ym mharagraff 12 o'r Memorandwm yn wall argraffu ac y dylai fod wedi cyfeirio at gymal 42.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod hi'n credu bod cymal 43 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac, os felly, pam y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r cymal hwnnw.

Cymalau 54 i 55

48. Mae cymalau 54 a 55 (cymalau 55 a 56 erbyn hyn) o'r Bil yn ehangu'r amgylchiadau lle mae gan swyddogion heddlu'r pŵer i osod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus a chynulliadau cyhoeddus. Mae cymal 61 yn ymwneud â phrotestiadau un person ac yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddiffinio'r hyn sy'n gyfystyr ag "aflonyddwch difrifol" yn y cyd-destun hwnnw.

49. Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi mewn perthynas â'r cymalau hyn:

"... er bod y drefn gyhoeddus yn fater a gedwir yn ôl, mae'r elfennau swm yn y cymalau hyn yn ymwneud â materion iechyd yr amgylchedd, sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru."³⁶

50. Fodd bynnag, mae nodiadau esboniadol y Bil yn darparu mai'r diben mewn perthynas â'r cymalau hyn yw mynd i'r afael â bylchau yn y deddfwriaeth sydd ar waith ar hyn o bryd i reoli protestiadau a chynulliadau, gyda'r bwriad o ehangu pwerau'r heddlu mewn amgylchiadau lle mae protestiadau a/neu gynulliadau yn achosi aflonyddwch i'r cyhoedd.³⁷

51. Rydym o'r farn ei bod yn amlwg bod prif bwrpas y cymalau yn ymwneud â chynnal trefn gyhoeddus. Bwriad effaith yr elfennau swm a gynhwysir yn y darpariaethau yw tarfu cyn lleied â

³⁶ Memorandwm, paragraff 16

³⁷ Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Nodiadau Esboniadol, Mai 2021, paragraff 68

phosibl ar y cyhoedd yn yr ardal gyfagos, yn hytrach nag am unrhyw resymau sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd.

52. Rydym o'r farn bod cymalau 54 i 55 (cymalau 55 i 56 erbyn hyn) y tu allan i'r prawf diben datganoledig a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1 ac felly nid oes angen cydsyniad y Senedd arnynt.

Cymal 59

53. O ran cymal 59 (cymal 60 erbyn hyn), nodwn fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd. Pan wnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pam, dywedodd:

*"Mae adran 59 yn darparu ar gyfer trosedd o achosi niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid. Mae hon yn disodli'r drosedd cyfraith gyffredin bresennol o niwsans cyhoeddus ac yn creu trosedd statudol newydd a all gynnwys ystod eang o ymddygiad."*³⁸

54. Rydym o'r farn nad yw'r esboniad yn foddhaol ac, yn absenoldeb gwybodaeth fanylach, rydym yn parhau i fod o'r farn bod cymal 59 (cymal 60 erbyn hyn) y tu allan i'r prawf diben datganoledig a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1 ac felly nad oes angen cydsyniad y Senedd arno.

Cymal 60

55. O ran cymal 60 (cymal 61 erbyn hyn), mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn ei gwneud yn glir mai bwriad y darpariaethau yw cynyddu'r pwerau sydd ar gael i gynnal trefn gyhoeddus; nid oes cyfeiriad at iechyd yr amgylchedd.³⁹

56. Er ein bod yn cydnabod bod y darpariaethau yn ymwneud â rheoli lefelau sŵn gormodol, rydym o'r farn mai pwrpas targedu lefelau sŵn gormodol yw cynnal trefn gyhoeddus a lleihau aflonyddwch i'r cyhoedd yn yr ardal gyfagos, yn hytrach na rhesymau iechyd yr amgylchedd. Nid yw unrhyw gysylltiad sydd gan effaith y ddarpariaeth ar iechyd yr amgylchedd (wrth roi pwerau mewn perthynas â rheoli sŵn) yn ddim mwy na chanlyniad rhydd a chanlyniadol i'r pwrpas a fwriadwyd, sef cynnal trefn gyhoeddus, sy'n fater a gadwyd yn ôl.⁴⁰

57. Rydym o'r farn bod cymal 60 (cymal 61 erbyn hyn) y tu allan i'r prawf diben datganoledig a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1 ac felly nid oes angen cydsyniad y Senedd arno.

³⁸ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 22 Medi 2020

³⁹ Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Nodiadau Esboniadol, Mai 2021

⁴⁰ Cedwir yn ôl gan baragraff 40 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*

Cymalau 61 i 63

58. Mae cymalau 61 i 63 (cymalau 62 i 64 erbyn hyn) yn cryfhau pwerau'r heddlu i fynd i'r afael â gwersylloedd diawdurdod, gan ganiatáu iddynt atafaelu cerbydau lle nad yw'r rhai y gofynnwyd iddynt adael yn gwneud hynny.

59. Mae nodiadau esboniadol y Bil yn darparu bod y drosedd yn berthnasol lle mae difrod, aflonyddwch neu drallod sylweddol wedi'i achosi neu'n debygol o gael ei achosi ac, heb esgus rhesymol, nid yw'r unigolyn yn gadael pan ofynnir iddo wneud hynny, symud ei eiddo.⁴¹

60. Nid yw Memorandwm Llywodraeth Cymru yn egluro pa bwrpas datganoledig y mae'n ystyried bod y darpariaethau'n ymwneud ag ef ac wrth argymhell nad yw'r Senedd yn rhoi cydsyniad i'r cymalau hyn. Mae'n nodi:

"...mae'r cymalau arfaethedig a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn canolbwyntio ar orfodi a throreddoli, sy'n tansellio ac yn peryglu'r ffordd o fyw led-nomadaidd sydd gan Sipsiwn, Roma a Theithwyr nad oes ganddynt o bosibl unrhyw le addas i osod eu cerbydau".⁴²

61. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pam bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â gwersylloedd diawdurdod. Dywedodd llythyr y Gweinidog mewn ymateb:

"Mae'r cymalau hyn yn ymwneud â throreddau o fyw ar dir heb ganiatâd mewn cerbyd neu gyda cherbyd, ac â phwerau i atafaelu a fforffedu cerbydau. Gan fod y cymalau'n ymwneud â defnyddio tir, atal meddiannu tir yn anghyfreithlon ac ymddygiadau cysylltiedig, gellid dadlau eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."⁴³

62. Rydym o'r farn bod y ddarpariaeth ond yn rhoi pŵer i'r heddlu gyfarwyddo'r rhai mewn gwersylloedd diawdurdod i adael yn seiliedig ar eu hymddygiad aflonyddgar neu ddifrod y maent wedi'i achosi yn dystiolaeth glir bod pwrpas y ddarpariaeth yn ymwneud â threfn gyhoeddus,⁴⁴ yn hytrach na defnydd tir.

63. Nodwn hefyd ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn ansicr ei hun o ran statws y cymalau hyn oherwydd bod llythyr y Gweinidog atom yn nodi y "gellid dadlau" bod y cymalau

⁴¹ Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Nodiadau Esboniadol, Mai 2021, paragraff 553

⁴² Memorandwm, paragraff 15

⁴³ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 22 Medi 2021

⁴⁴ Cedwir yn ôl gan baragraff 40 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*

sy'n ymwneud â gwerylloedd diawdurdod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

64. Rydym o'r farn bod cymalau 61 i 55 (62 i 64 erbyn hyn) y tu allan i'r prawf diben datganoledig a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1 ac felly nid oes angen cydsyniad y Senedd arnynt.

65. Gwnaethom ystyried yr ohebiaeth gan Travelling Ahead: Gwasanaeth Cyngori ac Eirioli Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn perthynas â'r cymalau hyn a chydnabod y materion o bryder a godwyd ganddynt. Nodwn eu bod hefyd wedi codi'r pryderon hyn gyda Senedd y DU. Yn anffodus, yn sgil ein barn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar y cymalau hyn, materion i Lywodraeth y DU ydynt a dylai Senedd y DU eu cymryd o ddifrif a mynd i'r afael â nhw.

Materion y cyfeiriwyd atynt gan Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi⁴⁵

66. Mae Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio (DPRRC) Tŷ'r Arglwyddi wedi argymhell gwelliannau i'r Bil fel a ganlyn mewn perthynas â chymalau o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt neu eu dal yn ôl.

67. Mae cymal 7 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodol ar gyfer ardal llywodraeth leol gydweithredu a chynllunio gyda'i gilydd i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Yr awdurdodau penodedig (fel y'u rhestrir yn Atodlen 1) yng Nghymru yw prif swyddogion yr heddlu, Byrddau Iechyd Lleol, cynghorau sir a bwrdeistref sirol, darparwyr gwasanaethau prawf, timau troseddu ieuenctid ac awdurdodau tân ac achub. Mae cymal 8 yn caniatáu i ddau neu fwy o awdurdodau penodedig gydweithredu a chynllunio gyda'i gilydd i atal a lleihau trais difrifol mewn ardal berthnasol. Mae'r DPRRC yn datgan:

"We are concerned that the absence of a requirement to publish means that a strategy can have legislative effect—by placing educational authorities, prison authorities and youth custody authorities under a statutory duty to do things specified in it—but without appropriate transparency.

Accordingly, we consider that the delegated powers in clauses 7(9) and 8(9) should be amended to require the publication of any action which is specified in a "strategy" as one that an educational authority, a prison authority or a youth custody authority must carry out".⁴⁶

68. Mae cymal 31 yn gosod dyletswydd ar bartneriaid adolygu lladdiadau i roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r cymal wedi'i ddiwygio i gynnwys

⁴⁵ Mae cyfeiriadau at gymalau yn yr adran hon o'r adroddiad yn ymwneud â chymalau ym Mil 40 Tŷ'r Arglwyddi

⁴⁶ Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraffau 13-14.

dyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig.

69. O ran cymal 31(1), a chymal 18(1) hefyd (gweler paragraff 35), mae'r DPRRC yn nodi bod yn rhaid i'r personau y cyhoeddir y canllawiau iddynt ym mhob achos roi sylw i'r canllawiau hynny. Mae'r DPRRC yn nodi ymhellach nad yw'r canllawiau ym mhob achos yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn Seneddol ac nid oes angen eu cyhoeddi hyd yn oed.⁴⁷

70. Mae'r DPRRC yn nodi'r rhesymau a roddwyd dros ddiffyg unrhyw weithdrefn Seneddol⁴⁸ ynghlwm wrth gyhoeddi'r canllawiau ond yn teimlo nad ydynt yn argyhoeddi.⁴⁹ O ganlyniad, mae'r DPRRC yn argymhell y dylai canllawiau o dan gymal 18(1) a 31(1) fod yn destun craffu (gan Senedd y DU) ac y dylai'r weithdrefn negyddol fod yn gymwys.⁵⁰

71. Fel y nodwyd uchod, mae cymalau 36 i 42 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer echdynnu data o ffonau symudol a dyfeisiau digidol gan berson awdurdodedig at ddibenion penodol. Mae'r DPRRC yn trafod y ddyletswydd yng nghymal 41(1) i wneud rheoliadau ynghylch echdynnu gwybodaeth gyfrinachol⁵¹ ac yn nodi:

"We consider that—

- clause 41(1) contains an inappropriate delegation of power because it leaves to regulations all provision about the exercise of the powers in clauses 36(1) and 39(1) to extract confidential information; and*
- provision about the exercise of these powers should instead be on the face of the Bill, coupled with a power to amend that provision by affirmative procedure regulations."⁵²*

72. Mae cymalau 55 a 56 o'r Bil yn diwygio adrannau 12 a 14 o *Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986* drwy ehangu'r amgylchiadau lle mae gan swyddogion heddlu'r pŵer i osod amodau ar

⁴⁷ Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraffau 16-17 ac 20

⁴⁸ Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraff 21, sy'n nodi paragraffau 44, 82, 152 a 268 o [Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Memorandwm Pwerau Dirprwyedig](#), Gorffennaf 2021

⁴⁹ Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraff 22

⁵⁰ Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraff 24

⁵¹ Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraffau 36-42

⁵² Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraff 43

orymdeithiau cyhoeddus a chynulladau cyhoeddus, yn y drefn honno. Mae cymal 55(4) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ynghylch ystyr—

- a. aflonyddwch difrifol i weithgareddau sefydliad sy'n cael ei gynnal yn ardal gyfagos gorymdaith gyhoeddus neu gynulliad cyhoeddus, a
- b. aflonyddwch difrifol i fywyd y gymuned, at ddibenion adrannau 12 a 14 o'r Ddeddf honno (gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus a chynulladau cyhoeddus).

73. Mae'r DPRRC yn datgan:

"We consider that the definitions of the expressions "serious disruption to the activities of an organisation" and "serious disruption to the life of the community" are of such significance that they merit the fuller scrutiny afforded to Bill provisions and should therefore appear on the face of the Bill, coupled with a power to amend those definitions by affirmative procedure regulations."⁵³

74. Rydym yn tynnu sylw'r Senedd at y materion hyn.

⁵³ Papur 65 Tŷ'r Arglwyddi, paragraff 60